

SIMWNT FYCHAN (c. 1530 - 1606), bardd

Enw: Simwnt Fychan
Dyddiad geni: c. 1530
Dyddiad marw: 1606
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth
Awdur: Griffith John Williams

a oedd yn byw yn y T Brith yn Llanfair Dyffryn Clwyd. Dywedir weithiau ei eni yn 1526. Ni ellir profi hynny, ond gan ei fod yn canu tua 1550, y mae'n eglur ei eni cyn 1530. Ei athro barddol ydoedd [Gruffudd Hiraethog](#), ac fe'i hurddwyd yn bencerdd yn eisteddfod Caerwys yn 1568, ac y mae copi o'r drwydded a gafodd yn *Y Greal*, 1806. Ceir llawer iawn o'i gywyddau yn y llawysgrifau, cywyddau mawl a marwnadau gyda chywyddau serch, ac eraill yn trafod pynciau megis y llysoedd cyfraith. Er eu bod yn dangos y grefft gynnil a ddisgwylid gan un o ddisgyblion [Gruffudd Hiraethog](#), ni pherthyn iddynt ryw lawer o arbenigrwydd. Y mae Simwnt yn bwysig fel gŵr hyddysg yn y traddodiadau barddol. Tua 1570 lluniodd gopi o ramadeg y beirdd wedi ei rannu'n bum llyfr, ac ynddo y cawn y gwaith hwnnw yn ei ffurf derfynol. Er hynny, rhaid pwysleisio mai copi ydyw. Yr unig adran sy'n newydd ydyw honno ar y gynghanedd, ac y mae'n bosibl mai ei athro, [Gruffudd Hiraethog](#), a'i lluniodd. Ac fel ei athro, yr oedd yn achwr cyfarwydd ac yn gryn feistr ar herodraeth. Ceir llawysgrif fawr yn cynnwys ei waith achyddol yn Llyfrgell Rydd Caerdydd, ac y mae llawer o lawysgrifau eraill o'i waith yn y gwahanol lyfrgelloedd. Cyhoeddwyd rhai o'i gywyddau, a chynhwyswyd ei awdl enghreifftiol i [Birs Mostyn](#), awdl a ddangosodd yn eisteddfod Caerwys yn 1568, yng ngramadeg [Siôn Dafydd Rhys](#), 1592. Ac yn 1571 cyhoeddwyd dalen yn cynnwys epigram y bardd Lladin, Martial, am 'ddedwyddyd bydol' gyda chyfieithiad Cymraeg ar fesur cywydd o waith Simwnt Fychan, cyfieithiad a luniodd ' wrth arch ac esponiat ' ei noddwr, [Simon Thelwall](#) o Blas-y-ward yn Rhuthyn. Claddwyd ef yn Llanfair Dyffryn Clwyd, 13 Ebrill 1606, a chanwyd marwnadau iddo gan [Siôn Phylip](#), [Edwart ap Raff](#), a [Thomas Evans](#) o Hendre Forfudd.

Awdur

Yr Athro Emeritus Griffith John Williams, (1892 - 1963)

Ffynonellau

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908), 515

Geirlyfr Bywgraffiadol o Enwogion Cymru (1870), 358-9

' Gweirydd ap Rhys,' *Hanes Llenyddiaeth Gymreig, 1300–1650* (1885), 1885, 310-3

Gramadegau'r Penceirddiaid (1934), 1934

Bulletin of the Board of Celtic Studies, iii, 286-97

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Simwnt Fychan](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q7521398](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

